



# **Adroddiad Monitro Blynyddol Safonau'r Gymraeg 2024-2025**

# Cynnwys

Rhagair .....	3
Crynodeb Gweithredol.....	4
Cefndir.....	5
Rhan 1: Adolygu 2024-25.....	6
Trosolwg.....	6
Offeryn Asesu'r Gymraeg mewn Swyddi Gwag.....	6
Cyfathrebu Mewnol .....	6
Newidiadau i Eiriad o amgylch y Gymraeg mewn Hysbysebion a Swydd Ddisgrifiadau.....	6
Presenoldeb Bwrdd Iechyd Addysgu Powys mewn Eisteddfodau.....	7
Hyfforddiant Cymraeg mewn Gofal Iechyd i Reolwyr.....	7
Ymchwiliad i Gydymffurfiaeth â Safonau 8-10 .....	8
Ymchwiliad i Gydymffurfiaeth â Safonau 39 a 41.....	8
Grŵp Llywio Arweinwyr Gwasanaethau Cymraeg.....	8
Hyfforddiant Ymwybyddiaeth o'r Gymraeg.....	8
Gwasanaeth Cyfieithu Cymraeg.....	8
Strategaeth y Gymraeg mewn Gofal Iechyd .....	9
Lefelau Sgiliau Cymraeg yn BIAP .....	9
Rhan 2: Cydymffurfio â Safonau'r Gymraeg .....	11
Safonau Cyflenwi Gwasanaethau .....	11
Safonau Llundio Polisi .....	19
Safonau Gweithredu .....	20
Cadw Cofnodion a Safonau Atodol .....	26
Symud Ymlaen: Ein Blaenoriaethau ar gyfer 2025-26 .....	28
Atodiad 1: Lefelau Sgiliau Cymraeg presennol yn BIAP fesul Safle.....	29

# Rhagair

Rwy'n falch o gyflwyno Adroddiad Blynyddol Safonau'r Gymraeg Bwrdd Iechyd Addysgu Powys, sy'n adlewyrchu ein hymrwymiad parhaus i hyrwyddo a gwreiddio'r Gymraeg yn ein gwasanaethau.

Un o'r cyflawniadau mwyaf nodedig eleni fu'r cynnydd yn ymgysylltiad staff â hyfforddiant Cymraeg. Gwelwyd nifer uchaf erioed o gydweithwyr yn cwblhau cyrsiau, gan ddangos brwdfrydedd ac ymroddiad cynyddol i wella ein galluedd dwyieithog. Mae'r cynnydd hwn nid yn unig yn tynnu sylw at y pwysigrwydd cynyddol a roddir ar sgiliau Cymraeg o fewn ein gweithlu ond mae hefyd yn cefnogi ein nod ehangach o gynnig gwasanaethau dwyieithog o ansawdd uchel i bobl Powys.

Rwyf wedi fy nghalonogi gan y cynnydd hwn a hoffwn ddiolch i'n holl staff am eu hymroddiad i ddysgu a chofleidio'r Gymraeg. Rydyn ni'n parhau i ymrwymo i feithrin amgylchedd dwyieithog ac yn edrych ymlaen at ddatblygu ein mentrau Cymraeg ymhellach yn y flwyddyn i ddod.

## **Hayley Thomas**

Prif Swyddog Gweithredol

Rydym yn falch o gyflwyno Adroddiad Blynyddol Safonau'r Gymraeg Bwrdd Iechyd Addysgu Powys, sy'n amlinellu ein cynnydd a'n hymrwymiad i hyrwyddo'r Gymraeg yn ein gwasanaethau a'n gweithle. Dros y flwyddyn ddiwethaf, rydym wedi cymryd camau ystyrlon i gryfhau ein galluedd dwyieithog, gan sicrhau nad yw'r Gymraeg yn cael ei thrin yn llai ffafriol na Saesneg ym mhob agwedd ar ein gweithrediadau.

Un datblygiad allweddol yn ystod y cyfnod adrodd hwn fu mireinio gofynion y Gymraeg yn ein hysbysebion swyddi. Rydym wedi diweddarau'r geiriad i ddarparu negeseuon cliriach a mwy cyson am bwysigrwydd sgiliau Cymraeg mewn gwahanol rolau, gan helpu ymgeiswyr deall disgwyliadau'n well a chefnogi ein nod o dyfu gweithlu dwyieithog.

I gefnogi hyn ymhellach, fe wnaethom gyflwyno Ap Asesu Swyddi Gwag newydd. Mae'r offeryn hwn yn caniatáu i reolwyr recriwtio asesu anghenion ieithyddol pob swydd yn fwy effeithiol, gan sicrhau bod penderfyniadau ynghylch gofynion y Gymraeg yn briodol, yn seiliedig ar dystiolaeth, ac yn cyd-fynd â'r Safonau. Mae'r ap wedi gwella cysondeb a thryloywder ein prosesau recriwtio ac mae wedi cael ei dderbyn yn gadarnhaol ar draws y sefydliad.

Mae hyfforddiant a datblygiad hefyd wedi bod yn ffocws cryf eleni. Rydym yn falch o adrodd bod nifer uchaf erioed o staff wedi cwblhau cyrsiau hyfforddiant Cymraeg. Mae'r cynnydd hwn mewn ymgysylltiad yn tynnu sylw at y diddordeb cynyddol ymhlith ein gweithlu mewn dysgu a defnyddio'r Gymraeg, yn ogystal â llwyddiant ein hymdrechion i hyrwyddo a hwyluso cyfleoedd hyfforddi.

Gyda'i gilydd, mae'r cyflawniadau hyn yn adlewyrchu ein hymrwymiad parhaus i ymgorffori Safonau'r Gymraeg ar draws Bwrdd Iechyd Addysgu Powys. Rydym yn adeiladu ar y sylfaen hon i wella ein gwasanaethau dwyieithog ymhellach a chefnogi gweledigaeth Llywodraeth Cymru o filiwn o siaradwyr Cymraeg erbyn 2050.

## **Debra Wood-Lawson**

Cyfarwyddwr Gweithredol Pobl a Diwylliant

Arweinydd Gweithredol y Gymraeg a Chydraddoldeb.

## **Crynodeb Gweithredol**

Mae'r adroddiad hwn yn amlinellu'r camau a gymerwyd gan Fwrdd Iechyd Addysgu Powys (BIAP) i weithredu Safonau'r Gymraeg.

Nodir manylion am y cynnydd a wnaed trwy gydol 2024-2025. Mae'r rhain yn cynnwys gwelliannau a wnaed yn y meysydd canlynol:

- Cyflwyno gwasanaeth asesu swyddi gwag newydd.
- Parhau i gynnig hyfforddiant Cymraeg i Reolwyr.
- Hyrwyddo cyfleoedd hyfforddi.
- Gwelliannau i brosesau sy'n ymwneud ag uwchlwytho dogfennau i'r wefan.
- Adolygiad o'r ffordd rydym yn hysbysebu swyddi gwag yn Gymraeg.

Yn gyffredinol, mae'r bwrdd iechyd yn parhau i weithio i sicrhau cydymffurfiaeth â'r Safonau. Mae systemau ar waith i sicrhau bod y mwyafrif o'r safonau'n cael eu bodloni yn y mwyafrif o amgylchiadau. Mae'r bwrdd iechyd yn perfformio'n arbennig o dda mewn meysydd fel cyfathrebu a chyfryngau cymdeithasol, ac mewn meysydd lle mae systemau'n cael eu rheoli'n ganolog (e.e. prosesau recriwtio fel cynnig contractau, asesu sgiliau Cymraeg darpar ymgeiswyr a'u gwahodd i wneud cais yn Gymraeg/defnyddio'r Gymraeg yn y cyfweliad).

Ceir mwy o wybodaeth am yr uchod, ochr yn ochr â chyfrif manwl o gydymffurfiaeth y bwrdd iechyd yn erbyn pob un o'r Safonau yn Rhan 2 yn yr adroddiad hwn.

## Cefndir

Rhaid i BIAP, ynghyd â Byrddau Iechyd Ac Ymddiriedolaethau eraill yng Nghymru, gydymffurfio â chyfres o Safonau fel yr amlinellir yn [Rheoliadau Safonau'r Gymraeg \(Rhif 7\) 2018](#).

Er mai Gweinidogion Cymru sy'n pennu'r safonau, y Comisiynydd sydd i benderfynu pa safonau sy'n gymwys i gorff penodol. Ym mis Tachwedd 2018, cyflwynodd y Comisiynydd hysbysiad cydymffurfio BIAP a oedd yn amlinellu'r safonau sydd gydymffurfio â nhw, a'r dyddiad erbyn pryd y mae'n rhaid iddo gydymffurfio. Mae copi o hysbysiad cydymffurfio BIAP ar gael [yma](#).

Fel rhan o'r Safonau hyn mae gofyniad i BIAP fonitro gweithrediad y Safonau a llunio Adroddiad Blynyddol (y ddogfen hon) sy'n rhoi manylion am sut mae'r bwrdd iechyd wedi cydymffurfio â'r Safonau.

Rhaid i bob aelod o staff dwyn cyfrifoldeb am weithredu'r Safonau ar draws BIAP. Bydd Arweinwyr y Gwasanaethau'n monitro cydymffurfiaeth o fewn eu meysydd gwasanaeth eu hunain ac yn adrodd cynnydd i Reolwr Gwella Gwasanaethau'r Gymraeg a fydd yn cynghori ac yn cefnogi'r gwaith o weithredu'r Safonau yn unol â hynny. Ar ddiwedd pob blwyddyn ariannol, bydd Rheolwr Gwella Gwasanaeth y Gymraeg yn drafftio adroddiad blynyddol a fydd yn cael ei gyflwyno i Arweinydd Gweithredol y Gymraeg a'i gymeradwyo gan y Pwyllgor Gwaith a'r Bwrdd cyn cael ei gyhoeddi ar wefan y bwrdd iechyd.

Mae'r fframwaith Mwy na Geiriau ar gyfer y Gymraeg mewn Iechyd a Gofal Cymdeithasol yn cyd-fynd â'r Safonau ac yn amlinellu sut y bydd y sectorau iechyd a gofal cymdeithasol yng Nghymru yn gwella eu gallu i ddarparu eu gwasanaethau yn Gymraeg, wedi'u trefnu o amgylch egwyddor y Cynnig Rhagweithiol - y syniad mai cyfrifoldeb darparwyr gwasanaethau yw cynnig cyfle i ddefnyddwyr gwasanaeth ddefnyddio'r Gymraeg heb gael eu holi.

# Rhan 1: Adolygu 2024-25

## Trosolwg

2024-25 oedd y flwyddyn gyntaf ers cyflwyno ein Strategaeth newydd ar gyfer y Gymraeg mewn Gofal Iechyd ac mae ymdrechion eleni wedi'u cyfeirio at brosesau sydd â'r bwriad o gynyddu lefel sgiliau Cymraeg o fewn ein gweithlu.

## Offeryn Asesu'r Gymraeg mewn Swyddi Gwag

Yn ystod 2023-24, datblygodd a chyflwynodd y bwrdd iechyd Offeryn Asesu'r Gymraeg mewn Swyddi Gwag BIAP. Mae hyn yn galluogi'r defnyddiwr i gynnal asesiad o'r lefel briodol o sgiliau Cymraeg i'w neilltuo i swydd wag newydd, gan hwyluso cydymffurfio â Safonau 106 a 117. Mae systemau blaenorol a ddefnyddiwyd i asesu swyddi gwag wedi bod yn seiliedig ar ymddiriedaeth ac nid oeddent yn cofnodi canlyniadau; mae'r system hon bellach yn sicrhau bod rheolwyr yn atebol am hyn. Wedi'u cynllunio'n lleol, mae systemau tebyg yn seiliedig ar fodel BIAP wedi'u cyflwyno mewn sefydliadau eraill GIG Cymru.

## Cyfathrebu Mewnol

Mae'r Bwrdd Iechyd yn parhau i gynnal ymgyrchoedd cyfathrebu mewnol i hyrwyddo dealltwriaeth o'r Safonau a fframwaith Mwy na Geiriau yn unig yn ogystal â hyrwyddo cyfleoedd ar gyfer hyfforddiant ynghylch y Gymraeg ac annog staff i gymryd rhan mewn digwyddiadau fel ymgyrch #DefnyddiaDyGymraeg Comisiynydd y Gymraeg i hyrwyddo defnydd y Gymraeg yn fewnol.



### #DefnyddiaDyGymraeg

O nawr hyd at yr 11eg o Ragfyr bydd ymgyrch Comisiynydd y Gymraeg '#DefnyddiaDyGymraeg' yn rhedeg sy'n annog pobl i ddefnyddio'u Cymraeg ym mhob rhan o'u bywydau ac yn annog sefydliadau i hyrwyddo eu gwasanaethau Cymraeg. Bydd amryw o sesiynau ar-le...



### Cylchlythyr y Gymraeg / Welsh Newsletter

Cliciwch yma i weld ein cylchlythyr ar gyfer mis Rhagfyr! Click here to see our December newsletter!

## Newidiadau i Eiriad o amgylch y Gymraeg mewn Hysbysebion a Swydd Ddisgrifiadau

Gan ddefnyddio hanesion anecdotaidd gan rai staff a oedd wedi ymuno â'r sefydliad o'r tu allan i Gymru a nododd fod y geiriad safonol a ddefnyddir mewn Hysbysebion Swyddi yn aneglur ac o bosibl yn digalonni ymgeiswyr, rydym wedi newid y geiriad a ddefnyddir ar draws BIAP i'w gwneud yn glir bod sgiliau Cymraeg yn faen prawf hanfodol ar gyfer rhai rolau tra hefyd yn tynnu sylw at gyfleoedd dysgu lleol i staff eraill. Mae'r geiriad newydd ar gyfer rolau Cymraeg Dymunol (sy'n cynrychioli'r rhan fwyaf o'r swyddi gwag a hysbysebir yn BIAP) yn parhau i egluro bod sgiliau Cymraeg yn cael eu gwerthfawrogi, gan ail-lunio'r Gymraeg fel rheswm cadarnhaol i wneud cais am rôl ym Mhowys - oherwydd bydd BIAP yn cynnig cyfleoedd hyfforddi a dysgu i'r rhai sydd â diddordeb mewn datblygu eu sgiliau iaith - yn hytrach na rheswm i beidio â gwneud cais i'r rhai sydd heb sgiliau ar hyn o bryd.

## Presenoldeb Bwrdd Iechyd Addysgu Powys mewn Eisteddfodau



Roedd yn gyffrous gweld Powys yn cynnal eisteddfod yr Urdd 2024 ym Meifod, ac roedd gan BIAP, mewn partneriaeth â Chyngor Powys, bresenoldeb ar y Maes drwy gydol yr wythnos, yn hyrwyddo gyrfaoedd ym maes gofal iechyd yn ogystal â rhywfaint o'n hymgyrchoedd iechyd cyhoeddus yn y Gymraeg. Mynychodd staff BIAP stondinau GIG Cymru yn yr Eisteddfod Genedlaethol ym Mhontypridd yn 2024 hefyd.

## Hyfforddiant Cymraeg mewn Gofal Iechyd i Reolwyr

Cyflwynwyd y modiwl hyfforddi hwn yn ystod 2023-24 fel rhan o Raglen Hyfforddi Rheolwyr Bwrdd Iechyd Addysgu Powys. Mynychodd cyfanswm o 24 o staff â chyfrifoldeb arweinyddiaeth bedair sesiwn dros y flwyddyn.

Mae'r cwrs yn cwmpasu pynciau megis:

- Y rhesymau moesol a diwylliannol pam mae darparu gwasanaethau yn y Gymraeg yn rhan angenrheidiol o arfer clinigol da, gan gyffwrdd â phynciau fel Gorbryder Diwylliannol, yn ogystal ag amlinellu'r gofynion deddfwriaethol a strategol.
- Sut i ystyried y Gymraeg yn briodol wrth recriwtio.
- Sut i gyrchu gwasanaethau cyfieithu a chyfieithu ar y pryd a pham mae eu hangen arnynt.

Mae'r modiwl hyfforddi Cymraeg mewn Gofal Iechyd i Reolwyr yn gonglfaen i'n strategaeth ar gyfer cydymffurfio â'r Safonau a Mwy na Geiriau, gan helpu sicrhau bod y safonau'n dod yn 'fusnes fel arfer' ar draws y bwrdd iechyd.

### Model good behavior

- Use whatever Welsh skills you have
- Begin / end meetings with Welsh greetings
- Be proactive in allowing staff to use their Welsh
- Promote internal processes in Welsh
- Do you know who the Welsh speakers are on your team?
- Consider setting personal and team objectives around Welsh and the Active Offer.

Do you have any good internal processes you'd like to share?

### Recruitment: Applications & Interviews

Examples of interview questions to ask:

- How would you respond if you received a telephone call from someone speaking in Welsh?
- How do you think our department can support compliance with the Welsh language Standards / patients who wish to use Welsh?

Do any of you have any questions regarding recruitment?

## Ymchwiliad i Gydymffurfiaeth â Safonau 8-10

Derbyniodd y bwrdd iechyd hysbysiad o ymchwiliad gan y Comisiynydd (Cyf: CS1124) ar 28<sup>ain</sup> Mawrth 2023 i'r safonau hyn ynghylch ateb galwadau ffôn yn Gymraeg. Yn ystod 2023-24 a 2024-25, cymerwyd amryw o gamau i wella cydymffurfiaeth gan gynnwys sesiynau hyfforddi ar gyfer staff sy'n trin galwadau. Roedd yr holl gamau gweithredu hyn i fod i gael eu cwblhau yn ystod 2024-25, ond yn anffodus oherwydd oedi i osod uwchraddiadau teleffoni newydd (sy'n caniatáu i alwyr sy'n dod i mewn ddewis eu hiaith wrth gysylltu â'r bwrdd iechyd), nid oedd yn bosibl cyflwyno'r system newydd yn ystod 2024-25 fel y bwriadwyd yn wreiddiol. Rhagwelir bellach y bydd yr uwchraddiadau hyn yn cael eu cwblhau yn ystod misoedd cyntaf 2025-26.

## Ymchwiliad i Gydymffurfiaeth â Safonau 39 a 41

Derbyniodd y bwrdd iechyd hysbysiad o ymchwiliad y Comisiynydd (Cyf: CS1205) ar 23<sup>ain</sup> Hydref 2023 i gydymffurfiaeth y bwrdd iechyd â'r ddwy safon hyn, sy'n ymwneud â'r Wefan. Canfu ymchwiliadau mewnol gan dîm Cyfathrebu BIAP fod achosion o ddiffyg cydymffurfio yn ymwneud yn bennaf â nifer fach o dimau unigol wrth uwchlwytho cynnwys yn gyson. Datblygwyd a chyflwynwyd proses newydd ac mae cydymffurfiaeth wedi gwella'n sylweddol; felly caewyd ymchwiliad y Comisiynydd.

## Grŵp Llywio Arweinwyr Gwasanaethau Cymraeg

Mae'r grŵp hwn wedi parhau i gwrdd yn ystod y flwyddyn, gan roi cyfle i staff drafod a rhannu materion sy'n ymwneud â chydymffurfio â'r safonau yn ogystal ag ymgynghori ar strategaethau a datblygiadau. Mae'r grŵp yn rhoi cyfle i staff rannu diweddariadau neu arfer gorau a rhoi adborth ar ddatblygiadau fel yr ap asesu swyddi gwag.

## Hyfforddiant Ymwybyddiaeth o'r Gymraeg

Mae modiwl ESR Ymwybyddiaeth o'r Gymraeg wedi bod yn sesiwn hyfforddi ar-lein orfodol i bob aelod o staff; mae bellach wedi'i gwblhau gan **94.7%** o staff, cynnydd o 4.7% o'i gymharu â'r llynedd.

## Gwasanaeth Cyfieithu Cymraeg

Cyfieithwyd cyfanswm o 597,111 o eiriau yn fewnol yn ystod 2024-25, cynnydd o 25.4% ar 2023-24. Mae dadansoddiadau mewnol wedi dangos arbedion ariannol amlwg ers cyflwyno'r gwasanaeth hwn yn 2021, gyda budd ychwanegol o ddefnyddio meddalwedd Cof Cyfieithu. Mae'n debyg mai'r defnydd o'r feddalwedd hon sy'n egluro'r enillion sylweddol o flwyddyn i flwyddyn: wrth i'r cynnwys sy'n cael ei storio yn y cof cyfieithu dyfu, mae'r system yn dod yn fwyfwy pwerus. Fodd bynnag, mae'r prif fanteision wedi bod yn gysylltiedig ag effeithlonrwydd ac effeithiolrwydd, e.e.

- Gwell profiad o ran safbwynt staff, gyda mwy o fewnbwn ar y cynnyrch gorffenedig a'r gallu i ymgynghori â'r cyfieithydd mewn amser real.
- Amseroedd gwell wrth ddychwelyd gwaith.
- Gwell cysondeb terminoleg.

## Strategaeth y Gymraeg mewn Gofal Iechyd

Wedi'i gyhoeddi yn 2023-24, mae ein Strategaeth y Gymraeg mewn Gofal Iechyd 2024-2029 yn ymgorffori'r gofyniad i ddatblygu Cynllun Pum Mlynedd i gynyddu ein gallu i ddarparu Ymgynghoriadau Clinigol yn y Gymraeg yn unol â Safon y Gymraeg 110 yn ogystal â Strategaeth y Gweithlu sy'n ofynnol gan *Mwy na Geiriau*, a darparu cyfeiriad a thargedau cyffredinol ar gyfer datblygu ein gweithlu dwyieithog. Mae'r ddogfen ar gael ar wefan BIAP ac mae'n nodi sut rydym yn bwriadu datblygu ein gallu Cymraeg fel sefydliad dros y pum mlynedd nesaf.





### Strategaeth y Gymraeg mewn Gofal Iechyd 2024-2029

#### Yn cynnwys:

- 1) Cynllun pum mlynedd i gynyddu gallu'r bwrdd iechyd i gynnal ymgynghoriad clinigol yn y Gymraeg (Safon Cymraeg 110);
- 2) strategaeth hyfforddi a gweithlu Cymraeg wedi'i thargedau dan y Fframwaith *Mwy na Geiriau*.

## Lefelau Sgiliau Cymraeg yn BIAP

O'r 31<sup>ain</sup> Mawrth 2025, nododd 2,605 aelod o staff yn BIAP bod eu gallu i siarad Cymraeg fel a ganlyn:




(Anhysbys heb ei ddangos yn y graff uchod)

## Sgiliau Cymraeg fesul Blwyddyn (Cyfran a Niferoedd)

Blwyddyn	Anhysbys	Lefel 0	Lefel 1	Lefel 2	Lefel 3	Lefel 4	Lefel 5	CYFANSWM
2022-23	317	1,140	654	161	79	69	115	2,535
2023-24	306	1,148	625	178	91	77	97	2,522
2024-25	269	1,265	624	171	91	78	108	2,605

Mae nifer y staff ym mhob grŵp wedi aros yn fras yr un fath yn y blynyddoedd blaenorol. Er bod cyfran a nifer absoliwt y staff sydd â sgiliau Cymraeg uwch (lefelau 3+) wedi cynyddu i'w uchaf erioed, mae hyn yn cael ei wrthbwysu gan ostyngiad bach mewn lefelau is (1 a 2) a thwf yn y corff staff yn gyffredinol, sy'n golygu bod y ganran sydd ag unrhyw lefel o sgiliau Cymraeg wedi lleihau ychydig.

## Sgiliau Cymraeg fesul Oedran (Anhysbys wedi'u Dileu)



Fel yn y blynyddoedd blaenorol, mae dangos sgiliau Cymraeg yn ôl oedran yn dangos lefelau sylweddol uwch o sgiliau Cymraeg ymhlith gweithwyr iau. Mae staff heb unrhyw sgiliau o gwbl yn y lleiafrif ym mhob grŵp oedran dan 40 oed ac yn y mwyafrif ym mhob grŵp uwchlaw 40 oed.

Mae'r data hwn wedi'i ddadansoddi fesul safle (ar gyfer 9 prif safle ysbyty BIAP) ac fe'i darperir yn atodiad 1 (nodwch nad yw holl staff BIAP yn cael eu dangos yn y graffiau canlynol gan fod rhai wedi'u lleoli mewn lleoliadau eraill). Mae dosbarthiad sgiliau Cymraeg ymhlith staff BIAP yn anwastad, gyda dau safle yn arbennig (ysbytai Ystradgynlais a Bro Dyfi (Machynlleth) yn dangos lefelau sylweddol uwch o sgiliau staff na safleoedd eraill. Mae hyn yn unol â chyfrifiad 2021 a ddangosodd fod y gyfran yn lleol yn amrywio o gyn lleied â 7% yn Nhref-y-clawdd a Llanandras i gyn uchel â 33% yn Ystradgynlais a 48% ym Machynlleth.

## Rhan 2: Cydymffurfio â Safonau'r Gymraeg

Yn ogystal â'r enghreifftiau uchod, mae'r canlynol yn nodi manylion y camau y mae BIAP wedi eu cymryd i sicrhau neu wella cydymffurfiaeth â Safonau'r Gymraeg yn ystod 2024-25.

### Safonau Cyflenwi Gwasanaethau

Safonau	Sefyllfa 2024-25	Camau Gweithredu Arfaethedig yn ystod 2025-26
<p>Safonau 1-7 mewn perthynas â gohebiaeth a anfonwyd gan y bwrdd iechyd</p>	<p>Yn unol â'r safonau a'n polisi BIAP mewnol, rydym wedi parhau i sicrhau bod gohebiaeth safonol yn cael ei hanfon allan yn ddwyieithog fel mater o drefn.</p> <p>O ran gohebiaeth ansafonol, mae'r gofyniad i ddelio â hyn yn lleol fesul achos yn cael ei hyrwyddo trwy sesiynau ymsefydlu, cyrsiau ymwybyddiaeth iaith a chynlluniau gweithredu mewnol adrannau.</p> <p>Mae rhan sylweddol o gyfathrebu'r bwrdd iechyd yn digwydd dros y cyfryngau cymdeithasol, sy'n cael ei reoli gan y tîm cyfathrebu. Mae gan y tîm siaradwr Cymraeg sy'n gallu sicrhau bod modd ymateb i unrhyw ohebiaeth a dderbynnir trwy'r cyfrwng hwnnw yn y Gymraeg heb yr angen am gyfieithu.</p>	<p>Parhau i sicrhau bod gohebiaeth yn cael ei chyfieithu yn ôl yr angen, ac i hyrwyddo cydymffurfiaeth â'r safonau hyn drwy sesiynau ymsefydlu, cyrsiau ymwybyddiaeth iaith a chynlluniau gweithredu mewnol adrannau.</p> <p>Dylai camau i gynyddu sgiliau Cymraeg drwy'r ap asesu swyddi gwag a blaenoriaethu hyfforddiant wella gallu'r bwrdd iechyd i ymateb yn gyflym i ohebiaeth yn y Gymraeg.</p>
<p>Safonau 8 – 20 yn ymwneud â galwadau ffôn a wnaed ac a dderbyniwyd gan y bwrdd iechyd</p>	<p>Yn ystod 2023-24 derbyniodd BIAP hysbysiad o ymchwiliad i fethiant i gydymffurfio â safonau 8, 9 a 10. Cafodd yr ymchwiliad ei gynnal a chanfod diffyg cydymffurfiaeth; a'r dasg i BIAP oedd datblygu a chynnal cynllun gweithredu i sicrhau cydymffurfiaeth yn y dyfodol.</p>	<p>Sicrhau bod y system newydd yn cael ei rhoi ar waith ac yn weithredol cyn gynted â phosibl yn ystod 2025-26, a bod gan dimau Gwasanaethau Cleifion y lefel</p>

	<p>Cynhaliwyd y rhan fwyaf o'r camau gweithredu sy'n gysylltiedig â'r ymchwiliad hwn yn ystod 2023-24 a'r bwriad gwreiddiol oedd y byddai hyn yn cael ei gwblhau yn ystod 2024-25. Roedd y cam gweithredu rhagorol yn cynnwys caffael system newydd yn lle system deffoni'r bwrdd iechyd a oedd yn ddegawdau oed. Yn anffodus, cafodd y gwaith ar hyn ei ohirio; disgwylir iddo gael ei gwblhau yn ystod misoedd cynnar 2025-26.</p>	<p>briodol o sgiliau ar waith i sicrhau cydymffurfiaeth.</p>
<p>Safonau 20-22CH yn ymwneud â chyfarfodydd nad ydynt ar agor i'r cyhoedd</p>	<p>Mae'r gofyniad hwn yn cael ei hyrwyddo'n barhaus ac mae timau unigol wedi gweithredu prosesau yn unol â'u gofynion unigol.</p> <p>Mae'r ddogfen Adnoddau ac Arweiniad i Reolwr yn cynnwys gwybodaeth am gynnal cyfarfodydd gydag aelodau'r cyhoedd. Lle nad yw'r staff sy'n siarad Cymraeg ar gael i fynychu cyfarfodydd, mae gan staff y gallu i gyrchu gwasanaethau cyfieithu ar y pryd, ac mae manylion y gwasanaethau cyfieithu ar y pryd sydd wedi'u cymeradwyo ar gael i staff ar y fewnrwyd ac wedi'i hyrwyddo i staff.</p> <p>Mae'r sesiwn hyfforddi Cymraeg mewn Gofal Iechyd i Reolwyr newydd yn ymdrin â gofynion y safonau hyn ac yn sicrhau bod rheolwyr yn ymwybodol o'r angen i gynnig cyfle i bobl sy'n cael eu gwahodd i gyfarfodydd i ddefnyddio'r Gymraeg.</p>	<p>Parhau i fonitro lefelau cydymffurfio ac adborth.</p>
<p>Safonau 23-25 yn ymwneud â chleifion mewnol a chynadleddau achos</p>	<p>Gellir cofnodi dewis iaith cleifion mewnol drwy sawl sianel ar draws BIAP. Mae gan ein systemau electronig WPAS a WCCIS y gallu i gofnodi dewis iaith cleifion. Mae llawer o'n ffurflenni atgyfeirio defnyddwyr gwasanaeth hefyd yn gofyn i gleifion am eu dewis iaith, a chynadleddau achos yn cael eu cynnal fel mater o drefn gyda chymorth cyfieithu ar y pryd.</p>	<p>Sicrhau bod unrhyw systemau newydd yn cael eu datblygu yn unol â'r gofynion hyn, gan gynnwys unrhyw systemau cenedlaethol y mae BIAP yn cyfrannu atynt.</p> <p>Bydd BIAP yn datblygu dull polisi i gydymffurfio â Safon 24.</p>

<p>Safonau 26-32 yn ymwneud â chyfarfodydd a digwyddiadau sydd ar agor i'r cyhoedd</p>	<p>Mae'r gofyniad i ofyn i'r cyhoedd a hoffent ddefnyddio'r Gymraeg yn ein cyfarfodydd wedi'i amlinellu mewn dogfennau canllawiau ar gynnal cyfarfodydd a digwyddiadau.</p> <p>Mae'r nifer sy'n manteisio ar y cynnig hwn yn brin, e.e. Gwahoddwyd cyfranogwyr CCB y bwrdd i ddefnyddio'r Gymraeg mewn cwestiynau, ac roedd yr holl wybodaeth a ddarparwyd yn Gymraeg; fodd bynnag, ni dderbyniwyd unrhyw gwestiynau yn Gymraeg.</p> <p>Mae'r canllawiau gweithdrefnol 'Yr Iaith Gymraeg – Cyfathrebu a Marchnata' sy'n cynnwys gwybodaeth ar sut i gydymffurfio â'r Safonau wrth drefnu cyfarfodydd sy'n agored i'r cyhoedd yn parhau i gael eu hyrwyddo i reolwyr a staff o fewn eu timau; mae'r sesiwn hyfforddi Cymraeg mewn Gofal Iechyd i Reolwyr yn ymdrin â gofynion y safonau hyn ac yn sicrhau bod rheolwyr yn ymwybodol o'r angen i gynnig cyfle i bobl sy'n cael eu gwahodd i gyfarfodydd i ddefnyddio'r Gymraeg.</p>	<p>Parhau i fonitro lefelau cydymffurfio ac adborth.</p>
<p>Safonau 33-38 yn ymwneud â chyhoeddusrwydd a hysbysebu, arddangos deunydd yn gyhoeddus, cynhyrchu a chyhoeddi dogfennau a ffurflenni.</p> <p>(Safonau 47-49 yn ymwneud ag arwyddion, hefyd Safonau 111 yn ymwneud ag arwyddion)</p>	<p>Cynhaliwyd ymweliadau rheolaidd â'r 9 prif safle ysbyty, gan asesu cydymffurfiaeth ag ystod o safonau gan gynnwys y rhai sy'n ymwneud ag arwyddion, arddangosfeydd gwybodaeth a dogfennau neu daflenni.</p> <p>Mae arwyddion sefydlog wedi bod yn ddwyieithog fel mater o drefn, wrth gwrs, ymhell cyn cyflwyno Safonau'r Gymraeg, ac ni chafwyd hyd i unrhyw enghreifftiau o ddiffyg cydymffurfio o ran arwyddion sefydlog.</p> <p>Cyhoeddir llawer o ddogfennau, arwyddion a gwybodaeth gyhoeddus yn Gymraeg a/neu'n ddwyieithog o fewn y bwrdd iechyd. Mae'r delweddau yn yr adran hon yn dangos rhai o'r deunyddiau a gyhoeddwyd yn ystod 2024-25.</p>	<p>Parhau i ymweld â safleoedd i asesu cydymffurfiaeth ac uwchgyfeirio materion.</p>

# GAFael YN AWENAU IECHYD MEDDWL

CYMORTH IECHYD MEDDWL DIGIDOL I FVYRWYR

## Datgloi Potensial GOFAL IECHYD YN SEILIEDIG AR WERTH

Ymunwch â ni i Greu Gwerth ym Mwrdd Iechyd Addysgu Powys

Mae eich cyfranogiad yn bwysig. Gyda'n gilydd, gallwch sicrhau bod ein hadnoddau yn cael eu defnyddio'n effeithiol i gyflawni'r canlyniadau a'r profiad iechyd gorau posibl i'r cymunedau.

**DULL YN SEILIEDIG AR WERTH**  
Gwerth ym Mhowys

Mae'r bwrdd Iechyd yn adelladu dull sy'n Seiliedig ar Werth i'w gynnwys yn ei:

- STRATEGAETH
- POBL A SGILLIAU
- DIWYLLIANT
- PROSESAU
- STRWYTHURAU

**Beth mae hyn yn ei olygu?**

- Deall beth sy'n bwysig i bobl
- Ymyriadau effeithiol ar sail tystiolaeth
- Llochau amrywiol ddiogel mewn gwahanol leoliadau, canlyniadau iechyd a chostau
- Mesur effaith ar ganlyniadau iechyd, profiad, a defnydd adnoddau

Mae sicuronrwydd **canlyniadau** iechyd, **profiad** a **chost** yn golygu y gall llawr o'r holl adnoddau'n cael eu defnyddio yn y lle i'w hysbortio yn cael yr effaith gadarnhaol hysbortio.

Mae'n bwysig bod ein hymdrechion i wella Gwerth yn cynnwys y system gyfan - mae hyn yn cynnwys gweithio gyda phartneriaid fel seicledau a'r Bwrdd Partneriaeth Rhannbarthol i sicrhau ein bod yn gwella gofal ar bob cam.

Mae'r dull hwn sy'n Seiliedig ar Werth yn helpu rhoi eiddodion ein strategaeth iechyd a Gofal ar waith ac mae'n alicwddol i sicrhau bod gofal iechyd yn parhau i fod yn effeithiol ac yn gynaliadwy yn y dyfodol.

Atal | Diagnosis cyntaf cynnar | Optimaiddio ymyrraeth | Tystiolaeth gefnogaeth | Gofal ddiroddi oer

GIG YSBYT NHS YSBYT YSBYT SilverCloud by Amwell



Murlun yn adran Ffisiotherapi, Ysbyty Aberhonddu

Mae arwyddion dros dro ac arddangosfeydd gwybodaeth yn parhau i fod braidd yn anghyson, ac mae amlygrwydd wedi'i

roi i'r safonau hyn yn hyfforddiant Cymraeg mewn Gofal Iechyd i Reolwyr. Rydym wedi gweld gwelliant ers 2023-24 gyda chyfran fwy o arwyddion bellach yn cael eu harddangos yn ddwyieithog.



Dylid nodi bod cyfran sylweddol o'r posteri gwybodaeth sy'n cael eu harddangos mewn safleoedd BIAP yn dod o ffynonellau nad oes ganddynt safonau'r Gymraeg ac sy'n darparu gwybodaeth yn Saesneg yn unig; er enghraifft, elusennau yn y DU fel The Alzheimer's Society, neu grwpiau gwirfoddol neu elusenol lleol bach. Yn unol â Chod Ymarfer Safonau'r Gymraeg (Rhif.7) a gyhoeddwyd gan Gomisiynydd y Gymraeg, nid yw arddangos y wybodaeth hon yn mynd yn

	groes i'r safonau, gan nad oedd BIAP (neu sefydliad arall sydd wedi derbyn Hysbysiad Cydymffurfiaeth Safonau'r Gymraeg) yn cynhyrchu'r wybodaeth yn y lle cyntaf.	
Safonau 39-46 sy'n ymwneud â gwefan, apiau a chyfryngau cymdeithasol y bwrdd iechyd	Yn dilyn cyflwyno system newydd yn ystod 2023-24 mae cydymffurfiaeth wedi gwella ac hyd eithaf ein gwybodaeth bresennol, mae gwefan a phrif sianeli cyfryngau cymdeithasol BIAP yn cael eu gweithredu'n llawn â'r safonau.	Parhau i sicrhau bod cydymffurfiaeth yn uchel.
Safonau 47-49 yn ymwneud ag arwyddion	<i>Gweler safonau 33-38 uchod.</i>	<i>Gweler safonau 33-38 uchod.</i>
Safonau 50-53 yn ymwneud â derbyn ymwelwyr	Mae arwydd wedi ei roi i bob derbynfa yn y bwrdd iechyd (lle nad oedd arwydd yno eisoes), yn gwahodd ymwelwyr i ddefnyddio'r Gymraeg (Safon 52); cafodd bathodynau/cortynnau hefyd eu dosbarthu yn eang i staff sy'n siarad Cymraeg (Safon 53). Yn ystod 2024-25, cysylltwyd yn uniongyrchol â'r holl staff sy'n siarad Cymraeg yn BIAP drwy e-bost a chynigiwyd cortynnau gwddf <i>Iaith Gwaith</i> neu <i>Ddysgwr</i> iddynt. Cafodd 77 o gortynnau unigol eu dosbarthu, ac mae'r gallu i gael y logo wedi'i frodio ar wisgoedd hefyd wedi cael ei hysbysebu'n eang.	Unwaith y bydd y system teleffoni newydd yn cael ei gosod a'i gweithredu, bydd modd cynnig gwasanaeth derbynfa dros y ffôn (yn unol â chod ymarfer Comisiynydd y Gymraeg) ym mhob dderbynfa.
Safonau 54-59 yn ymwneud â grantiau, tendrau a chaffael	Mae BIAP yn parhau i gydymffurfio â'r safonau hyn yn unol â chaffael ac ymarfer safonol GIG Cymru.	Parhau i sicrhau cydymffurfiaeth
Safonau 60-62 yn ymwneud â delwedd gorfforaethol y sefydliad	Mae hunaniaeth gorfforaethol BIAP yn gwbl ddwyieithog, gyda'r Gymraeg yn ymddangos uwchben y Saesneg yn ein logo.	Parhau i sicrhau cydymffurfiaeth

Safon 63 yn ymwneud â chyrsgiau addysg a gynigir gan y bwrdd iechyd	Mae rheolwyr yn cael gwybod am y safon hon fel rhan o raglen hyfforddi Cymraeg mewn Gofal Iechyd i Reolwyr.	Parhau i sicrhau cydymffurfiaeth
Safon 64 yn ymwneud â systemau annerch y cyhoedd	Fel y mae ar y 31 <sup>ain</sup> Mawrth 2025 nid oes systemau annerch y cyhoedd ar waith o fewn BIAP.	<i>Amherthnasol</i>
Safonau 65-68 yn ymwneud â gofal sylfaenol	Yn unol â Safon 65, mae rhan benodol o'r wefan yn bodoli i roi gwybodaeth i'r cyhoedd am wasanaethau gofal sylfaenol sy'n gallu cynnig rhai neu'r holl wasanaethau yn Gymraeg. Mae logo "Iaith Gwaith" yn galluogi darparwyr i nodi eu bod yn gallu cynnig gwasanaethau yn Gymraeg:	Sicrhewch fod adran hon y wefan yn gyfredol drwy annog darparwyr yn flynyddol i adolygu'r wybodaeth i sicrhau ei bod yn gyfredol.

## Rhestr o Meddygfedd Teulu ym Mhowys

Defnyddiwch y tabl isod i ddod o hyd i bob Meddygfedd Teulu ym Mhowys. Cliciwch ar bractis i ddod o hyd i ragor o fanylion.

### GP Practices

Dangos 10 cofnod


Chwilio:

Blaenorol 1 2 3 Nesaf


côd	Enw	Cyfeiriad	Tref	Cod post	Dros y ffôn	Ffacs
W96001	Montgomery Medical Practice	Well Street, Montgomery	Powys	SY15 6PF	01686 668217	
W96001a	Ladywell Surgery	St Davids House, New Road	Newtown	SY16 1RB	01686 623791	01686 629215
W96002	Pengorof Surgery	Gorof Road, Ystradgynlais	Powys	SA9 1DS	01639 843221, 01639 843221	01639 846920, 01639 846920
W96002a	Abercrave Surgery	Heol Tawe, Abercrave	Swansea	SA9 1TJ		
W96002b	Ystalyfera Surgery (Swansea)	Wern Road, Ystalyfera	Swansea	SA9 2LX		
W96003	Ty Henry Vaughan	Bridge Street, Brecon	Powys	LD3 8AH	01874 622121	01874 623742
W96003a	Sennybridge Health Centre	Defynnog Road, Sennybridge	Brecon	LD3 8RU	01874 636559	
W96004	Wylcwm Street Surgery	Wylcwm Street, Knighton	Powys	LD7 1AD	01547 528523	01547 529347

Mae gwasanaeth cyfieithu mewnol BIAP y parhau i gael ei gynnig i ddarparwyr gofal sylfaenol yn ôl Safon 66 ynghyd â chyfle i archebu bathodynau / cortynnau gwddf gyda logo 'Iaith Gwaith' yn rhad ac am ddim.


## Safonau Lluio Polisi

<p>Safonau 69 – 78A yn ymwneud â phenderfyniadau llunio polisi</p>	<p>Cafodd adolygiad arfaethedig o broses Aseiad o'r Effaith ar Gydraddoldeb y Bwrdd Iechyd ei dynnu o'n cynlluniau oherwydd y disgwyliad y gallai proses Aseiad o'r Effaith ar Gydraddoldeb Cymru Gyfan gael ei chyflwyno, a fyddai'n ymgorffori'r safonau hyn.</p>  <p><b>What do I need to consider? (5/6)</b></p> <p><b>Welsh Language</b> The Policy or Project must should not have negative effects and ideally will have positive effects on</p> <ol style="list-style-type: none"> <li>1) Opportunities to use the Welsh Language</li> <li>2) Treating the Welsh Language less favourably than English</li> </ol> <p><i>Questions to ask:</i> What provision have you made for Welsh? Will Welsh versions be distributed with English materials? Will it be easier for people to receive services in Welsh? If the service is new, how will you offer it in Welsh?</p> <p>11 Equality Impact Assessment Training</p> <p>Serch hynny, mae gweithdrefn bresennol yr Aseiad o'r Effaith ar Gydraddoldeb gan y bwrdd iechyd yn parhau ar waith ac wedi arwain at newidiadau i brosiectau/polisiau gan gynnwys, o fewn ein fframwaith <i>Codi Llais Heb Ofn</i>, gwneud yr hawl i godi pryderon mewnol yn Gymraeg yn eglur a gwneud y dudalen dan sylw ar gael yn y Gymraeg.</p>	<p>Bydd BIAP yn cymryd rhan mewn unrhyw brosiect Aseiad o'r Effaith ar Gydraddoldeb Cymru Gyfan ac yn sicrhau bod gofynion y safonau'n cael eu hymgorffori mewn unrhyw waith o'r fath.</p> <p>Parhau i gofnodi newidiadau cadarnhaol a wnaed i wella mynediad at y Gymraeg a darpariaeth gwasanaethau.</p> <p>Bydd BIAP yn datblygu dull polisi ar gyfer Safon 78 ar benderfyniadau Gofal Sylfaenol.</p>
--	---	--

## Safonau Gweithredu

<p>Safon 79 yn ymwneud â pholisi ar ddefnydd mewnol y Gymraeg</p>	<p>Mae polisi Y Gymraeg yn y Gweithle Bwrdd Iechyd Addysgu Powys yn bodloni gofynion y safon hon. Caiff ei hyrwyddo yn y sesiwn ymsefydlu a hyfforddiant Cymraeg mewn Gofal Iechyd i Reolwyr.</p> <div style="text-align: center;">  <p><b>POLISI'R GYMRAEG YN Y GWEITHLE</b></p> <table border="1" data-bbox="580 606 969 959"> <tr> <td><b>Rhif Cyfeirnod y Ddogfen:</b></td> <td colspan="2">BIAP /HR101 Polisi'r Gymraeg yn y Gweithle</td> </tr> <tr> <td><b>Fersiwn:</b></td> <td colspan="2">1</td> </tr> <tr> <td><b>Dyddiad cyhoeddi:</b></td> <td colspan="2">Gorffennaf 2023</td> </tr> <tr> <td><b>Dyddiad Adolygu:</b></td> <td colspan="2">Gorffennaf 2026</td> </tr> <tr> <td><b>Awdur:</b></td> <td colspan="2">Rheolwr Gwella Gwasanaethau Cydraddoldeb a'r Gymraeg</td> </tr> <tr> <td><b>Perchennog y ddogfen:</b></td> <td colspan="2">Rheolwr Gwella Gwasanaethau Cydraddoldeb a'r Gymraeg</td> </tr> <tr> <td><b>Gweithredwr Atebol:</b></td> <td colspan="2">Cyfarwyddwr y Gweithlu a Datblygu Sefydliadol</td> </tr> <tr> <td><b>Cymeradwywyd gan:</b></td> <td colspan="2">Pwyllgor Gweithredol</td> </tr> <tr> <td><b>Dyddiad Cymeradwyo:</b></td> <td colspan="2">12 Gorffennaf 2023</td> </tr> <tr> <td><b>Math o Ddogfen:</b></td> <td>Polisi</td> <td>Anghlunigol</td> </tr> <tr> <td><b>Cwmpas:</b></td> <td colspan="2">BIAP cyfan</td> </tr> </table> <p style="font-size: small; text-align: center;">Mae'r fersiwn ddiweddaraf wedi'i chymeradwyo o'r ddogfen hon ar-lein. Os yn'r dyddiad adolygu wedi mynd heblio, cyhylltewch â'r Awdur am gyngor.</p> </div>	<b>Rhif Cyfeirnod y Ddogfen:</b>	BIAP /HR101 Polisi'r Gymraeg yn y Gweithle		<b>Fersiwn:</b>	1		<b>Dyddiad cyhoeddi:</b>	Gorffennaf 2023		<b>Dyddiad Adolygu:</b>	Gorffennaf 2026		<b>Awdur:</b>	Rheolwr Gwella Gwasanaethau Cydraddoldeb a'r Gymraeg		<b>Perchennog y ddogfen:</b>	Rheolwr Gwella Gwasanaethau Cydraddoldeb a'r Gymraeg		<b>Gweithredwr Atebol:</b>	Cyfarwyddwr y Gweithlu a Datblygu Sefydliadol		<b>Cymeradwywyd gan:</b>	Pwyllgor Gweithredol		<b>Dyddiad Cymeradwyo:</b>	12 Gorffennaf 2023		<b>Math o Ddogfen:</b>	Polisi	Anghlunigol	<b>Cwmpas:</b>	BIAP cyfan		<p>Parhau i hyrwyddo'r Polisi Cymraeg yn y Gweithle.</p>
<b>Rhif Cyfeirnod y Ddogfen:</b>	BIAP /HR101 Polisi'r Gymraeg yn y Gweithle																																		
<b>Fersiwn:</b>	1																																		
<b>Dyddiad cyhoeddi:</b>	Gorffennaf 2023																																		
<b>Dyddiad Adolygu:</b>	Gorffennaf 2026																																		
<b>Awdur:</b>	Rheolwr Gwella Gwasanaethau Cydraddoldeb a'r Gymraeg																																		
<b>Perchennog y ddogfen:</b>	Rheolwr Gwella Gwasanaethau Cydraddoldeb a'r Gymraeg																																		
<b>Gweithredwr Atebol:</b>	Cyfarwyddwr y Gweithlu a Datblygu Sefydliadol																																		
<b>Cymeradwywyd gan:</b>	Pwyllgor Gweithredol																																		
<b>Dyddiad Cymeradwyo:</b>	12 Gorffennaf 2023																																		
<b>Math o Ddogfen:</b>	Polisi	Anghlunigol																																	
<b>Cwmpas:</b>	BIAP cyfan																																		
<p>Safonau 80 – 81 yn ymwneud â dogfennau cyflogaeth</p>	<p>Mae contractau (Safon 80) wedi'u safoni a'u darparu'n ddwyieithog yn awtomatig drwy'r system TRAC.</p> <p>Mae dogfennau cyflogaeth eraill wedi eu darparu yn Gymraeg ar fewnrwyd y Bwrdd Iechyd; hyrwyddir ymwybyddiaeth o'r rhain drwy sesiwn hyfforddi Cymraeg mewn Gofal Iechyd i Reolwyr.</p>																																		
<p>Safon 82 - yn ymwneud â</p>	<p>Mae proses wedi'i sefydlu i sicrhau bod polisiâu sy'n berthnasol i'r safon hon ar gael yn Gymraeg, a lle gwneir newidiadau, y mae'r</p>	<p>Archwilio potensial deallusrwydd artiffisial i gynyddu capasiti cyfieithu</p>																																	

<p>pholisïau gweithredol</p>	<p>rhain hefyd yn cael eu nodi. Cyhoeddwyd rhan fwyaf o'r pholisïau dan sylw Safon 82 yn ddwyieithog yn barod gan eu bod yn bolisïau Cymru Gyfan.</p> <p>Bydd unrhyw bolisïau lleol yn cael eu cyfieithu yn unol â'r prosesau adolygu presennol a byddant yn parhau drwy gydol 2024-25.</p>	<p>er mwyn lleihau'r ôl-groniad cyfieithu.</p>
<p>Safonau 83-88 – yn ymwneud â disgyblu, anghydfod a phrosesau mewnol eraill.</p>	<p>Mae'r holl ofynion hyn yn parhau i gael eu bodloni drwy'r pholisïau perthnasol presennol ar gyfer Cymru gyfan a BIAP; hyrwyddir ymwybyddiaeth o'r rhain drwy sesiwn hyfforddi Cymraeg mewn Gofal Iechyd i Reolwyr.</p>	<p>Parhau i sicrhau bod yr holl bolisïau yn adlewyrchu'r gofynion hyn.</p>
<p>Safon 89 yn ymwneud â rhyngwynebau meddalwedd cyfrifiadurol dwyieithog</p>	<p>Mae Cysgliad a rhyngwynebau Cymraeg ar gyfer Windows, Office ac ESR yn parhau i fod ar gael i staff. Mae manylion ar gyrchu'r rhain ar gael ar fewnrwyd staff y bwrdd iechyd, a hyrwyddir ymwybyddiaeth o'r rhain drwy sesiwn hyfforddi Cymraeg mewn Gofal Iechyd i reolwyr.</p>	<p>Parhau i hyrwyddo'r rhain drwy sesiynau ymsefydlu a sesiynau hyfforddi/ymwybyddiaeth staff.</p>

<p>Safonau 90 – 95 yn ymwneud â'r fewnwyd</p>	<p>Mae ein mewnwyd wedi'i chynllunio o'r dechrau i gydymffurfio'n llwyr â'r Safonau sy'n gysylltiedig â'r fewnwyd (i'r graddau y mae'r bensaernïaeth yn caniatáu). Gellir cyrchu'r fersiynau Cymraeg o dudalennau mewnwyd (lle maen nhw'n bodoli) drwy glicio 'Cymraeg' ar y tab ieithoedd:</p>  <p>Yn ogystal â'r tudalennau sy'n ymwneud â defnyddio'r Gymraeg yn y gwaith (gweler uchod), mae hafan y fewnwyd ar gael yn Gymraeg fel y mae tudalennau sy'n ymwneud ag Datblygu Sefydliadol ac Addysg Glinigol (Hyfforddiant) a phob safle arall fel y nodir gan y Safon 81.</p>	<p>Parhau i fonitro'r fewnwyd i sicrhau bod cydymffurfiaeth yn parhau wrth i'r fewnwyd ddatblygu.</p>
<p>Safonau 96 – 101 yn ymwneud â sgiliau hyfforddiant Cymraeg staff</p>	<p>Gweler yr adran uchod am gyfrifoldebau adrodd sgiliau staff.</p> <p>Mae BIAP wedi parhau i hyrwyddo a, lle bo'n briodol, cefnogi dysgu Cymraeg yn ariannol yn unol â'r safonau.</p> <p>Mae BIAP yn cynnal partneriaeth waith gref gyda Dysgu Cymraeg a Choleg Cambria i ddarparu cyfleoedd dysgu Cymraeg i staff.</p>	<p>Parhau i hyrwyddo opsiynau hyfforddi presennol a newydd i staff ar draws BIAP i gynnal y lefel hon o ymgysylltu.</p>

	<p>Yn ystod 2024-25:</p> <ul style="list-style-type: none"> <li>- Cymerodd cyfanswm o 17 unigolyn o'r bwrdd iechyd ran yng nghynllun <i>Codi Hyder</i>.</li> <li>- Cymerodd 12 unigolyn ran yng nghynllun dysgu rhagarweiniol <i>Cwrs Croeso</i> gyda Dysgu Cymraeg.</li> <li>- Cwblhaodd 4 gwrs hunangyfeiriedig ar-lein gyda Dysgu Cymraeg.</li> <li>- Mynychodd 1 unigolyn gwrs preswyl am wythnos.</li> <li>- Cwblhaodd 1 unigolyn gwrs <i>Gloywi Iaith</i>.</li> <li>- Cymerodd 2 unigolyn arall ran mewn cynlluniau Dysgu Cymraeg gyda chefnogaeth y bwrdd iechyd.</li> <li>- Ymgwymerodd 1 unigolyn â chwrs astudio hunangyfeiriedig drwy <i>Say Something in Welsh</i>.</li> </ul> <p>Mae'r cyfanswm cyfunol hwn o 38 o gyrsiau wedi'u cadarnhau yn uchafbwynt newydd i BIAP.</p>	
<p>Safonau 102-103 yn ymwneud â hyfforddiant ymwybyddiaeth o'r Gymraeg</p>	<p>Cyflwynwyd y modiwl newydd ar-lein Mwy na Geiriau: Ymwybyddiaeth o'r Gymraeg ym mis Rhagfyr 2022. Ym mis Mawrth 2025, roedd cyfanswm o <b>94.7%</b> o holl staff BIAP wedi ymgymryd â'r modiwl hyfforddi gorfodol hwn (cynnydd o 4.7% ers 2023-24).</p>	<p>Parhau i fonitro ac annog cwblhau'r modiwl hyfforddi gorfodol.</p>
<p>Safonau 104-105 yn ymwneud â nodi staff sy'n siarad Cymraeg</p>	<p>Mae bathodynau a chortynnau gwddf i adnabod staff sy'n siarad Cymraeg a dysgwyr Cymraeg ar gael i'r holl staff, a gellir eu brodio hefyd i wisgoed staff clinigol. Yn ystod 2024-25, cysylltwyd yn uniongyrchol â phob aelod o staff sy'n siarad Cymraeg yn BIAP drwy e-bost a chynigiwyd cortyn <i>Iaith Gwaith</i> neu <i>Ddysgwr</i> iddynt, gyda 77 ohonynt wedi'u dosbarthu yn ystod y flwyddyn ariannol.</p> <p>Mae hyn yn galluogi cleifion i adnabod staff sy'n siarad Cymraeg yn rhwydd ac yn cynyddu eu hyder yng ngallu'r bwrdd iechyd i ddarparu gwasanaethau yn Gymraeg.</p>	

		Mae templedi llofnod e-bost dwyieithog ar gael ar dudalen adnoddau Cymraeg y fewnrwyd a hefyd yn y ddogfen Canllawiau ac Adnoddau i Reolwyr.	
Safonau 106 yn ymwneud â recriwtio	yn â	<p>Yn ystod 2024-25, cysylltwyd yn uniongyrchol â phob aelod o staff sy'n siarad Cymraeg yn BIAP drwy e-bost a chynigiwyd cortyn Iaith Gwaith neu Ddysgwr iddynt, gyda 77 ohonynt wedi'u dosbarthu yn ystod y flwyddyn ariannol. Er bod y system hon wedi bod yn ddefnyddiol wrth safoni'r dull, mae wedi datgelu mai dim ond lleiafrif o reolwyr sy'n ei defnyddio, gyda nifer y rolau a aseswyd yn eithaf bach.</p> <p>Mae'n bolisi'r bwrdd iechyd i sicrhau bod yr holl swyddi gwag yn nodi'r gofyniad Cymraeg, ac yn cael eu hysbysebu yn Gymraeg yn ogystal â Saesneg yn unol â Safonau 106 a 106A; fel mater o drefn, gwahoddir ymgeiswyr i wneud cais yn Gymraeg i bob swydd wag.</p> <p>Mae 107A a-c i gyd yn cael eu darparu yn Gymraeg fel mater o arfer safonol. Ar hyn o bryd nid yw'r bwrdd iechyd yn cyfieithu'r holl swydd ddisgrifiadau (107A ch) oherwydd cyfyngiadau ariannol a chapasiti.</p> <p>Yn ystod 2024-2025, hysbysebodd BIAP 849 swydd wag:</p> <p>Cafodd 8 swydd ei hysbysebu gyda lefel sgiliau Cymraeg yn hanfodol (cynnydd o 1 yn 2023-24).</p> <p>Cafodd 824 swydd ei hysbysebu gyda lefel sgiliau Cymraeg yn ddymunol.</p> <p>Cafodd 17 swydd ei hysbysebu lle nad oedd angen unrhyw sgiliau Cymraeg.</p> <p>Mae enghreifftiau o rolau a hysbysebwyd gyda sgiliau Cymraeg hanfodol yn cynnwys</p> <ul style="list-style-type: none"> <li>- Cydlynnydd Achosion Cwynion ac Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru</li> </ul>	<p>Sicrhau bod mwy o bobl yn defnyddio'r offeryn asesu sgiliau Cymraeg ar gyfer swyddi gwag yn ystod 2024-25.</p> <p>Parhau i sicrhau bod swyddi gwag Cymraeg hanfodol ar raglenni fel prentisiaethau a rhaglenni nyrsio uchelgeisiol yn rhan annatod o 2025-26.</p> <p>Archwilio potensial deallusrwydd artifisial i gynyddu'r gallu i gyfieithu er mwyn galluogi mynd i'r afael â phroblemau hirhoedlog e.e. Swydd Ddisgrifiadau.</p>

	<ul style="list-style-type: none"> <li>- Addysgwr Sgiliau'r Academi</li> <li>- Rhaglen Darpar Nyrsys</li> <li>- Rhaglen Prentisiaethau</li> </ul> <p>Er bod cyfanswm y swyddi a hysbysebwyd fel Cymraeg hanfodol yn parhau i fod yn gyfran fach iawn o'r cyfanswm (&lt;1%), mae hyn yn cynrychioli cynnydd sylweddol o'i gymharu â blynyddoedd blaenorol, gyda'r ystod o dimau a gynrychiolir hefyd yn uwch.</p>	
Safonau 110-110A sy'n ymwneud â chynllun ar gyfer ymgynghoriadau clinigol dwyieithog	Cafodd ein Strategaeth y Gymraeg mewn Gofal Iechyd 2024-2029 ei chynllunio i fodloni gofynion y strategaeth hon. Mae'r ddogfen gynhwysfawr hon yn ymgorffori'r gofyniad i ddatblygu Cynllun Pum Mlynedd i gynyddu ein gallu i ddarparu Ymgynghoriadau Clinigol yn y Gymraeg yn unol â Safon y Gymraeg 110 yn ogystal â Strategaeth y Gweithlu sy'n ofynnol gan Mwy na Geiriau, a darparu cyfeiriad a thargedau cyffredinol ar gyfer datblygu ein gweithlu dwyieithog. Mae'r ddogfen ar gael ar wefan BIAP ac mae'n nodi sut rydym yn bwriadu datblygu ein gallu Cymraeg fel sefydliad dros y pum mlynedd nesaf.	Sicrhau bod Strategaeth y Gymraeg mewn Gofal Iechyd yn cael ei hymgorffori a'i hyrwyddo ar draws y bwrdd iechyd.
Safonau 111 – 113 yn ymwneud ag arwyddion	(Gweler safonau 33-38 uchod).	(Gweler safonau 33-38 uchod).
Safon 114 - yn ymwneud â negeseuon gweithle wedi'u recordio.	Nid yw'r safon hon yn berthnasol i BIAP gan nad oes systemau cyhoeddiadau wedi'u recordio yn gweithle ar ein safleoedd.	Amherthnasol

## Cadw Cofnodion a Safonau Atodol

<p>Safon 115 - yn ymwneud â chwynion.</p>	<p>Yn ystod 2024-2025 ni dderbyniodd BIAP unrhyw gwynion ffurfiol mewn perthynas â chydymffurfiaeth â Safonau'r Gymraeg.</p> <p>Mae BIAP yn parhau i ddilyn yr amodau a nodir yn y polisi 'Gweithio i Wella' GIG Cymru, sy'n cynnwys gwybodaeth am ddelio â chwynion a wnaed yn Gymraeg ac ynglŷn â darpariaeth Gymraeg. Gallwch weld copïau o'r dogfennau hyn <a href="#">yma</a>.</p> <p>Gwnaed dau gyswllt anffurfiol ynghylch ein cydymffurfiaeth â safonau'r Gymraeg.</p> <ul style="list-style-type: none"><li>- Roedd un yn ymwneud â darparu gwasanaethau ar sgrin ryngweithiol mewn lleoliad Gofal Sylfaenol o fewn y Bwrdd Iechyd mewn ffordd a oedd yn trin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg. Er nad oedd hwn yn arfer rheoledig ac felly nad oedd y Safonau'n berthnasol yn uniongyrchol, roedd modd datrys y pryder a mynd i'r afael â'r mater.</li><li>- Roedd un arall yn ymwneud â safonau mewn perthynas â hysbysebu rolau ac ar ein llinellau ffôn, er na ddarparwyd unrhyw fanylion a fyddai wedi galluogi'r bwrdd iechyd i ymchwilio ymhellach. Mae'r safonau hyn naill ai'n destun cydymffurfiaeth barhaus (gweler Safonau 8-10 uchod) neu'n achos lle mae'r bwrdd iechyd wedi gwneud penderfyniad bwriadol ar ei safbwynt cydymffurfio (gweler Safon 107 uchod).</li></ul>	<p>Amherthnasol</p>
---	---	---------------------

Safonau 116-121 sy'n ymwneud â chadw cofnodion a materion atodol.	Ar gyfer Safon 116, gweler 'Iefelau Sgiliau Cymraeg cyfredol yn BIAP' uchod. Ar gyfer Safon 117, gweler Safon 106.	Amherthnasol
---	---	--------------

## Symud Ymlaen: Ein Blaenoriaethau ar gyfer 2025-26

Mae ein Strategaeth newydd ar gyfer y Gymraeg mewn Gofal Iechyd yn nodi ein blaenoriaethau a'n targedau dros gyfnod y pum mlynedd nesaf o ran gwella sgiliau Cymraeg ein gweithlu, a fydd yn ei dro yn gwella ein gallu i gydymffurfio â'r safonau.


Mae'r golofn 'Camau Gweithredu Arfaethedig yn ystod 2025-26' yn yr adran uchod yn awgrymu llwybrau gwaith pellach yn ystod y flwyddyn ariannol nesaf. Mae'r rhain yn cynnwys:

- Sicrhau bod y system ffôn yn cael ei sefydlu cyn gynted â phosibl a bod gan y timau perthnasol y lefel briodol o sgiliau Cymraeg i alluogi cydymffurfio â safonau 8, 9 a 10.
- Archwilio'r defnydd o offer deallusrwydd artiffisial i gynyddu capasiti cyfieithu mewnol er mwyn gwella cydymffurfiaeth â safonau 82 a 107.
- Parhau i hyrwyddo'r defnydd o'r Offeryn Asesu'r Gymraeg mewn Swyddi Gwag, gan gynnwys uwchgyfeirio lle bo angen i sicrhau bod rolau'n cael eu hasesu'n briodol yn unol â safon 106.
- Yn unol â chanllawiau a gyhoeddwyd gan Gomisiynydd y Gymraeg, datblygu dulliau polisi priodol ar gyfer safonau 24 a 78.


Am fwy o wybodaeth ar fanylion yr adroddiad hwn ac am ragor o wybodaeth am sut mae BIAP yn gweithredu Safonau'r Gymraeg, cysylltwch â thîm Cydraddoldeb a'r Gymraeg drwy anfon e-bost at [powys.equalityandwelsh@wales.nhs.uk](mailto:powys.equalityandwelsh@wales.nhs.uk).

# Atodiad 1: Lefelau Sgiliau Cymraeg presennol yn BIAP fesul Safle


Aberhonddu (Brecon)




Bronllys




Y Drenewydd (Newtown)




Llanidloes




Llandrindod




Machynlleth/Bro Ddyfi



Y Trallwng (Welshpool)



Trefyclawdd (Knighton)



Ystradgynlais

